*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Gorffennaf 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Ystadau 2026–36** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Strategaeth Ystadau ar gyfer 2026–2036 er gwybodaeth Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Strategaeth Ystadau wedi sefydlu fframwaith deng mlynedd ar gyfer buddsoddi yn ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) a'i moderneiddio. Diben hyn yw sicrhau bod yr ystâd yn ddiogel, yn gynhwysol, yn effeithiol o ran yr Ochr Weithredol, ac yn amgylcheddol gyfrifol.

3 Gwnaed arolwg cyflwr cynhwysfawr ar draws 49 eiddo, gan roi sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer targedu buddsoddiad. Nodwyd cyfleoedd i wella cyfran sylweddol o'r ystâd, gyda gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn y meysydd a gaiff yr effaith fwyaf dros y tymor byr i ganolig.

4 Mae'r strategaeth yn adlewyrchu adborth manwl a gafwyd gan staff ac yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys cryfhau trefniadau rheoli halogiad, gwella safonau lles, gwella cynhwysiant a chefnogi effeithiolrwydd yr ochr weithredol.

5 Mae'n sefydlu rhaglen strwythuredig ac a ellir ei chyflawni ar gyfer adnewyddu gorsafoedd, lleihau'r rhestr o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud, datgarboneiddio'r ystâd a datblygu cyfleuster hyfforddi modern. Mae hefyd yn cadarnhau penderfyniadau strategol pwysig, gan gynnwys cadw ein gorsafoedd presennol a chryfhau rheolaeth a chyflawni trwy sicrhau bod gwaith rheoli ystadau yn fewnol erbyn 2027.

6 Mae camau cyflawni wedi'u diffinio'n glir hyd at 2036, ac mae amcanion mesuradwy i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro mewn ffordd dryloyw a bod adroddiadau blynyddol yn cael eu rhoi i'r Awdurdod.

## ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO/PANEL GWEITHREDOL

7 Nid yw'r papur hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## ARGYMHELLION

8 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Ystadau ar gyfer 2026–2036.**

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Strategaeth Ystadau yn cefnogi iechyd a diogelwch cymunedau, yn gwella llesiant y gweithlu ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) drwy wneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor a chynaliadwy. |
| Cyllideb | Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar y Strategaeth Ystadau dros y ddeng mlynedd, yn ogystal â chyllid ar gyfer mynd i'r afael â'r rhestr o waith cynnal a chadw a nodwyd. Bydd goblygiadau ariannol manwl yn cael eu hystyried trwy achosion busnes unigol a'r rhaglen gyfalaf flynyddol. |
| Cyfreithiol | Mae'r Strategaeth Ystadau yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion statudol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, safonau adeiladu a rhwymedigaethau amgylcheddol. |
| Staffio | Bydd swyddogaeth Rheoli Cyfleusterau mewnol yn cael ei sefydlu erbyn Ebrill 2027 i oruchwylio gwaith cyflawni a rheoli ystadau parhaus. |
| Cydraddoldebau/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae'r Strategaeth Ystadau yn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd o ran cynhwysiant trwy ymrwymo i wella cyfleusterau, gan gynnwys trefniadau newid a lles priodol, gan sicrhau urddas a hygyrchedd i'r holl staff. |
| Risgiau | Mae'r risgiau allweddol yn cynnwys fforddiadwyedd, y gallu i gyflawni, ac oedi posibl wrth sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau mawr. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli trwy drefniadau llywodraethiant, cyflawni mewn camau, a gwaith monitro parhaus trwy adroddiadau blynyddol. |